



HM Government



Cardiff Business School  
Ysgol Busnes Caerdydd

# HELP I DYFU.

## RHEOLI

## YDYCH CHI'N ARWEINYDD NEU'N GWNEUD PENDERFYNIADAU I BBACH?

## AWYDDUS I GEFNOGI GWYTNWCH, DATBLYGIAD NEU DWF EICH BUSNES?

**Ruth Partington, Prif Swyddog  
Gweithredol, EMPOWER**

“ Pan wnes i gofrestru ar gyfer y rhaglen Helpu i Dyfu yn 2021, nid oedd gen i unrhyw ddisgwyliadau uniongyrchol o'r hyn a allai ddeillio yn sgil cymryd rhan ynddi. Mae wedi bod yn daith anhygoel, ac mae wedi gwneud imi ailystyried fy syniadau a'm nodau strategol. Mae hefyd wedi rhoi'r cyfle imi feddwl am bethau o'r newydd yn ogystal â bod yn agoriad llygad go iawn o ran yr ymchwil a'r syniadau diweddaraf. Er bod y rhaglen yn ddwys – gan fod rhaid ymrwymo'n llawn i gael y budd mwyaf ohoni – rwy wedi mwynhau fy amser yn fawr, ac mae wedi cadarnhau fy awydd i greu newidiadau yn fy musnes fy hun, hyd yn oed ar ôl 25 mlynedd. Bellach, ynghyd â'r mentor a gefais drwy gydol cyfnod y rhaglen, mae EMPOWER yn tyfu'n gyflym ac mae hyder o'r newydd ynddi a chryn newidiadau strwythurol. I goroni'r cyfan, mae'r gefnogaeth a'r ymrwymiad ymroddgar gan y fim yn Ysgol Busnes Caerdydd wedi bod yn anhygoel. ”



I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Chyfarwyddwr y Rhaglen, Jane Lynch:  
[Help2Grow@caerdydd.ac.uk](mailto:Help2Grow@caerdydd.ac.uk)

# Beth yw Helpu i Dyfu: Rheoli?

Ymunwch ag arweinwyr busnes eraill - Arloesi a thywch eich busnes a mynd ag ef i'r lefel nesaf gyda'r cwrs gweithredol hwn yn cael ei ddarparu gan arbenigwyr yn y divyudiant yn Ysgol Busnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd.

Mae'r cwrs 12 wythnos hwn wedi'i gynllunio i weithio o amgylch eich rôl amser llawn ac mae'n 90% wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU.

Cymorth i Dyfu Ysgol Busnes Caerdydd: Mae'r cwrs rheoli wedi bod yn helpu perchnogion busnes ac arweinwyr o amrywiaeth o sectorau busnes yng Nghymru i roi hwb i'w perfformiad busnes, eu gwytnwch a'u twf hirdymor.

Mae modiwlau rhyngweithiol ar-lein yn cael eu cyfuno â rhwydweithio a chefnogaeth rhwng cymheiriaid. O bryd i'w gilydd, rydym yn eich gwahodd i ymuno ag arweinwyr busnes eraill ar sail wyneb yn wyneb i archwilio ac i drafod enghreifftiau o astudiaethau achos. Mae'r gweithdai hyn yn eich helpu i gymhwyso gwybodaeth newydd i ddatblygu eich Cynllun Gweithredu Twf a helpu i gryfhau dyfodol eich busnes.

Nid rhaglen cyflymu twf ar gyfer arweinwyr busnesau newydd yn unig yw hon, mae hefyd yn addas iawn i arweinwyr busnesau hirsefydlog.



**Matt Rapson,**  
**Rheolwr Gyfarwyddwr,**  
**Thermal Compaction Group Ltd**

“ Ni allaf ganmol y cwrs rheoli H2TG ddigon. Yn bersonol, rhoddodd sylw i'r rhan fwyaf o'r elfennau angenrheidiol, os nad pob un ohonynt, i allu cael trosolwg proffesiynol o gynnal BBaCh (SME), chwilio am gyfleoedd i dyfu a, gorau oll, rhoi'r cyfarpar i edrych ar eich sefydliad a'i wneud mor llwyddiannus â phosibl. Roedd deunydd y darlithwyr yn gynhwysfawr. Cyflwynodd y cwrs cynnwys mewn modd proffesiynol, ond hawdd ei ddeall, a oedd yn eich galluogi i ddysgu rhywbeth defnyddiol ym mhob modiwl. Mae'r amser a dreuliais ar y cwrs hwn wedi bod yn amhrisiadwy i mi a'm cwmni. ”

## Hyd

12 wythnos ynghyd â sesiwn ymgyfarwyddo

## Lleoliad

Sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb yn Ysgol Busnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd

## Cost

£750 gan fod y rhaglen yn cael ei chyllido 90% gan Lywodraeth y DU (llai na £65 yr wythnos)

## Pwy sy'n gymwys

I ymuno â Help i Dyfu: Cwrs Rheoli a bod yn gymwys am gymhorthdal cyllid, rhaid bod eich busnes fod:

- yn cyflogi rhwng 5 a 249 o bobl
- yn Fenter Fach neu Ganolig (BBaCh) yn y Deyrnas Unedig
- yn gweithredu ers o leiaf flwyddyn
- peidio â bod yn elusen.

Os ydych yn cyflogi rhwng 10 a 249 o bobl, gallwch anfon hyd at DDAU weithiwr ar y cwrs.

I ymuno â Help i Dyfu: Cwrs Rheoli, rhaid i'r ymgeisydd ddiwallu'r canlynol:

- bod yn benderfynwr ar lefel uwch, fel Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac ati.
- ymrwymo i gwblhau pob sesiwn.

## Strwythur y Rhaglen

Cymaint mwy na chwrs rheoli yn unig:

- wyth sesiwn ar-lein 2 awr wedi'u hwyluso
- pedair sesiwn wyneb yn wyneb sy'n weithdai astudiaethau achos ymarferol a rhyngweithiol
- cefnogaeth gan gymheiriaid
- 10 awr o fentora busnes un-i-un. Bydd eich mentor a ddewisir yn ofalus yn rhoi cymorth personol i chi i ddatblygu cynllun twf pwrpasol, cynaliadwy i helpu eich fîm a'ch busnes gyflawni ei lawn potensial
- rhwydweithio â chymheiriaid sy'n cynnwys galwadau cyfrinachol rheolaidd â'r grŵp cymheiriaid. Mae'r sesiynau hyn sydd wedi'u hwyluso'n cynnig cyfle i rannu profiadau gyda grŵp arall o arweinyddwyr busnesau.
- mynediad at Raglen Helpu i Dyfu: Rheoli i Gynfyfyrrwyr sy'n cynnwys digwyddiadau gyda siaradwyr ysbrydoledig, clinigau busnes a digwyddiadau rhwydweithio.

Bydd y rhaglen yn ymdrin â meysydd arweinyddiaeth allweddol gan gynnwys:

- strategaeth ac arloesedd
- trawsnewid digidol
- ennill marchnadoedd newydd
- gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd
- datblygu strategaeth farchnata
- adeiladu brand
- dylunio sefydliadol
- ymgysylltu â gweithwyr ac arwain newid
- gweithle perfformiad uchel
- gweithrediadau effeithiol
- cyllid a rheolaeth ariannol



# HELP I DYFU

## RHEOLI

Cyflwynir rhaglen Help i Dyfu: Rheoli gan Ysgolion Busnes ledled y DU sydd wedi'u hachredu â'r Siarter Busnes Bach. Mae'r rhaglen yn derbyn cymhorthdal sylweddol gan Lywodraeth y DU, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Daiwydiannol (BEIS).

Rydym yn cynnig sesiynau blasu AM DDIM yn rheolaidd ar gyfer Help i Dyfu: Cwrs rheoli. Edrychwch ar ein gwefan am ragor o fanylion neu sganiwch y cod QR isod.

Un yn unig o blith llawer o raglenni a gynigir gan ein fîm Addysg Weithredol yw hon.

### Yn dilyn y rhaglen

Mae cwblhau rhaglen Help i Dyfu: Rheoli yn Ysgol Busnes Caerdydd yn ddechrau ar berthynas gydol oes gyda'r ysgol busnes gyda mynediad at amrywiaeth o gyfleoedd gan gynnwys myfyrwyr ar leoliad gwaith, prosiectau haf a Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth. Rydym ni'n rheoli ein cymuned gynyddol o gyn-fyfyrwyr Help i Dyfu drwy grŵp arbennig ar LinkedIn.

### Ysgol Busnes Caerdydd

Ysgol Busnes Caerdydd yw'r ysgol busnes gyntaf yn y byd i roi gwerth cyhoeddus wrth wraidd ei gweithrediadau. Mae'n Ysgol Busnes sydd wedi'i hachredu gan AACSB ac AMBA ac mae iddi bwrpas clir: cael effaith gadarnhaol yng nghymunedau Cymru a'r byd.



**Beverley Lewis,  
Prif Swyddog  
Gweithredol, Triathlon  
Cymru Cyfyngedig**

“ Ni waeth ble rydych arni ar eich taith arweinyddiaeth, byddwch yn elwa llawer o Helpu i Dyfu: Cwrs Rheoli. Nid wyf yn adnabod neb sydd wedi gwneud y cwrs heb elwa arno mewn rhyw ffordd. ”

➔ I ddeall sut y gallwn eich cefnogi, ac i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Dr Jane Lynch, Cyfarwyddwr y Rhaglen: [Help2Grow@caerdydd.ac.uk](mailto:Help2Grow@caerdydd.ac.uk)

🐦 #HelpToGrow @CardiffBusiness



Cardiff Business School  
Ysgol Busnes Caerdydd



SIARTER  
BUSNESAU  
BACH

 Department for  
Business, Energy  
& Industrial Strategy